

Cyngor Sir Ceredigion

ADRODDIAD I'R:	Cabinet
DYDDIAD:	14 Chwefror 2023
LLEOLIAD:	Hybrid
TEITL:	Adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar y Gyllideb Ddrafft fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar 24^{ain} Ionawr 2023 a'r opsiynau o ran arbedion i'r gwasanaeth ar gyfer 2023/24. Ystyriodd yr Aelodau hefyd y newidiadau arfaethedig i Daliadau a Ffioedd y Cyngor, yn weithredol o 1^{af} Ebrill 2022
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd 9^{fed} Chwefror 2023

CEFNDIR:

Cyfarfu Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach i ystyried cyllideb Gwasanaethau y meysydd gwasanaeth hynny o dan gylch gwaith y Pwyllgor ac ystyried yr argymhellion a ganlyn:

1. Ystyried sefyllfa gyffredinol y Gyllideb fel y nodir yn yr adroddiad ar y Gyllideb yn Ychwanegiad A.
2. Ystyried elfennau perthnasol y pwysau o ran Costau ar y Gyllideb, sef cyfanswm o £22.2m ar draws pob Gwasanaeth.
3. Ystyried elfennau perthnasol y cynigion o ran Arbedion yn y Gyllideb, sef cyfanswm o £8.9m ar draws pob Gwasanaeth.
4. Ystyried elfennau perthnasol y cynigion o ran Taliadau a Ffioedd.
5. Ystyried y 4 opsiwn a amlinellir yn Argymhellion 3a) i d) yn adroddiad Cabinet 24/01/23, sef:
 - 3a) Cynnydd o 6.3% i'r Dreth Gyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb o £179.627m ar gyfer 23/24, a fyddai'n darparu cyfraniad is tuag at Bwysau Costau Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig
 - 3b) Cynnydd o 7.3% i'r Dreth Gyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb o £180.101m ar gyfer 23/24.
 - 3c) Cynnydd o 8.3% i'r Dreth Gyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb o £180.576m ar gyfer 23/24, a fyddai'n darparu cyfraniad uwch tuag at Bwysau Costau Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig.
 - 3d) Opsiwn arall yn ychwanegol at Argymhellion 3a) i 3c) i ddarparu cynnydd penodol at ddiben penodol, ar yr amod bod unrhyw opsiwn yn cael ei ystyried yn ystod cyfarfodydd Craffu'r Gyllideb a bod swyddog Adran 151 yn cael digon o amser ymlaen llaw i fodelu'r effaith yn llawn ac i roi barn ar ei gadernid.
6. Darparu unrhyw adborth priodol arall ar Gyllideb Ddrafft 23/24 i'r Cabinet.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan Arweinydd y Cyngor (y Cyngorydd Bryan Davies), yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Chaffael (y Cyngorydd Gareth Davies) a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Duncan Hall). Yna cyflwynodd yr Aelod Cabinet priodol yr eitemau yn y gyllideb sy'n berthnasol ar gyfer y meysydd gwasanaeth sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a atebwyd yn eu tro gan yr Aelodau Cabinet a/neu'r Uwch Swyddogion.

Argymhellion:

Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

1. Roedd wedi ystyried sefyllfa gyffredinol y gyllideb fel y dangosir yn yr adroddiad ar y gyllideb yn Atodiad A.
2. Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y pwysau o ran costau ar y gyllideb sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.
3. Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y gyllideb sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.
4. Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ynghylch ffioedd a chostau sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn, ac eithrio bod Aelodau'r Pwyllgor yn argymhell bod y Cabinet yn cytuno i ymestyn penderfyniad y Cabinet ar 22 Chwefror 2022 am flwyddyn arall ar gyfer cyfnod 2023/2024, fel a ganlyn:
 - Rhoi awdurdod dirprwyedig i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar, mewn ymgynghoriad ag Aelod portffolio'r Cabinet â chyfrifoldeb dros y Canolfannau Hamdden a Lles, i amrywio'r Taliadau a'r Ffioedd ar gyfer y Canolfannau Lles yn 2023/2024, a chynnal cynigion hyrwyddo am gyfnodau cyfyngedig/tymor byr.
5. Pleidleisiodd mwyafrif Aelodau'r Pwyllgor o blaid cynnydd o 7.3% yn lefelau'r Dreth Gyngor. Felly, mae'r Pwyllgor yn argymhell cynnydd o 7.3% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2023-2024, sef opsiwn 3b) yr argymhellion, fel a ganlyn:

(3b)Cynnydd o 7.3% i'r Dreth Gyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb o £180.101m ar gyfer 23/24.
6. Ni chafwyd mwy o adborth gan y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft 2023/24.

Y Cyngorydd Caryl Roberts
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R:	Cabinet
DYDDIAD:	14 Chwefror 2023
LLEOLIAD:	Hybrid
TEITL:	Adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ynghylch y gyllideb ddrafft a ystyriwyd gan y Cabinet ar 24 Ionawr 2023 a'r opsiynau ar gyfer gwneud arbedion yn y gwasanaethau yn 2023/2024. Hefyd ystyriodd yr Aelodau'r newidiadau arfaethedig i Ffioedd a Chostau'r Cyngor a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023.
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Darparu adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023.

CEFNDIR:

Cyfarfu Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu i ystyried y cyllidebau ar gyfer y gwasanaethau sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, ynghyd ag ystyried yr argymhellion canlynol:

1. Ystyried sefyllfa gyffredinol y gyllideb fel y dangosir yn yr adroddiad ar y gyllideb yn Atodiad A.
2. Ystyried elfennau perthnasol y pwysau o ran costau ar y gyllideb, sef cyfanswm o £22.2m ar draws yr holl wasanaethau.
3. Ystyried elfennau perthnasol y cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y gyllideb, sef cyfanswm o £8.9m ar draws yr holl wasanaethau.
4. Ystyried elfennau perthnasol y cynigion ynghylch ffioedd a chostau.
5. Ystyried y 4 opsiwn a amlinellir yn Argymhelliad 3a) i 3d) o adroddiad Cabinet 24/01/23, sef:
 - 3a) Cynnydd o 6.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad cyllidebol o £179.627m ar gyfer 23/24, a fyddai'n darparu cyfraniad is tuag at Bwysau Costau Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion.
 - 3b) Cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad cyllidebol o £180.101m ar gyfer 23/24.
 - 3c) Cynnydd o 8.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad cyllidebol o £180.576m ar gyfer 23/24, a fyddai'n darparu cyfraniad uwch tuag at Bwysau Costau Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion.
 - 3d) Cynnig opsiwn arall yn ychwanegol at Argymhellion 3a) i 3c) i ddarparu cynnydd penodol at ddiben penodol, ar yr amod bod unrhyw opsiwn yn cael ei ystyried yn ystod y cyfarfodydd a gynhelir i graffu ar y gyllideb a bod y Swyddog Adran 151 yn cael digon o amser ymlaen llaw i fodelu'r effaith yn

llawn ac i roi ei farn ar ei gadernid.

6. Darparu unrhyw adborth priodol arall ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 23/24 i'r Cabinet.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan Arweinydd y Cyngor (y Cynghorydd Bryan Davies), yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Chaffael (y Cynghorydd Gareth Davies) a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Duncan Hall). Yna cyflwynodd yr Aelod Cabinet priodol yr eitemau yn y gyllideb sy'n berthnasol ar gyfer y meysydd gwasanaeth sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a atebwyd yn eu tro gan yr Aelodau Cabinet a/neu'r Uwch Swyddogion.

Argymhellion:

Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

1. Roedd wedi ystyried sefyllfa gyffredinol y gyllideb fel y dangosir yn yr adroddiad ar y gyllideb yn Atodiad A.
2. Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y pwysau o ran costau ar y gyllideb sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.
3. Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y gyllideb sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.
4. Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ynghylch ffioedd a chostau sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.
5. Pleidleisiodd rhan fwyaf Aelodau'r Pwyllgor o blaid cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor. Felly mae'r Pwyllgor yn argymhell cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2023/2024, sef opsiwn 3b) yn yr argymhellion:
 - 3b) Cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad cyllidebol o £180.101m ar gyfer 23/24.
6. Cytunwyd i argymhell y canlynol i'r Cabinet: os bydd rhagor o arian ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru ac nad oes amodau ynghlwm wrtho, dylid neilltuo'r arian hwnnw ar gyfer ysgolion.

**Y Cynghorydd Endaf Edwards
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R: Cabinet

DYDDIAD: 14 Chwefror 2023

LLEOLIAD: Hybrid

TEITL: Adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar y gyllideb ddrafft fel y'i hystyriwyd gan y Cabinet ar Ionawr 24^{ain} 2023 ac opsiynau arbedion gwasanaethau ar gyfer 2023/24 Ystyriodd yr Aelodau hefyd y newidiadau arfaethedig i Ffioedd a Chostau'r Cyngor a fydd yn dod i rym ar Ebrill 1^{af} 2023

PWRPAS YR ADRODDIAD: Rhoi adborth o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar Chwefror 10^{fed} 2023

CEFNDIR:

Gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus gyfarfod i ystyried Cyllideb y Gwasanaeth ar gyfer y meysydd gwasanaeth hynny sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor ac i ystyried yr argymhellion canlynol:

1. Ystyried sefyllfa gyffredinol y Gyllideb fel y'i dangosir yn yr adroddiad ar y Gyllideb ym Mhapur A.
2. Ystyried elfennau perthnasol pwysau Costau'r Gyllideb, sef cyfanswm o £22.2m ar draws yr holl Wasanaethau.
3. Ystyried elfennau perthnasol y cynigion ar gyfer Arbedion yn y Gyllideb, sef cyfanswm o £8.9m ar draws yr holl Wasanaethau.
4. Ystyried elfennau perthnasol cynigion y Ffioedd a chostau.
5. Ystyried y 4 opsiwn a amlinellwyd yn Argymhelliad 3a) i d) adroddiad Cabinet 24/01/23, sef:
 - 3a) Cynnydd o 6.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb o £179.627m ar gyfer 23/24, a fyddai'n darparu cyfraniad is tuag at Bwysau Costau Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig.
 - 3b) Cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb 23/24 o £180.101m.
 - 3c) Cynnydd o 8.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb 23/24 o £180.576m, i roi cyfraniad uwch tuag at Bwysau Costau Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig.
 - 3d) Cynnig opsiwn arall yn ychwanegol at Argymhelliad 3a) i 3c) i roi cynnydd penodol at ddiben penodol, ar yr amod bod unrhyw opsiwn yn cael ei ystyried yn ystod cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb a bod swyddog Adran 151 yn cael digon o amser ymlaen llaw i fodelu'r effaith yn llawn ac i roi barn ar ei gadernid.
6. Rhoi unrhyw adborth priodol arall ar Gyllideb Ddrafft 23/24 i'r Cabinet.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan Arweinydd y Cyngor (y Cynghorydd Bryan Davies), Aelod y Cabinet dros Gyllid a Chaffael (y Cynghorydd Gareth Davies) a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Duncan Hall). Yna cyflwynodd Aelod perthnasol y Cabinet eitemau'r Gyllideb sy'n berthnasol i'w Faes Gwasanaeth. Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb yn eu tro gan Aelodau'r Cabinet a/neu Uwch Swyddogion.

Argymhellion:

Cytunodd y Pwyllgor:

1. Ei fod wedi ystyried sefyllfa gyffredinol y Gyllideb fel y'i dangosir yn yr adroddiad ar y Gyllideb ym Mhapur A.
2. Ei fod wedi ystyried elfennau perthnasol pwysau Costau'r Gyllideb sy'n dod o dan y Pwyllgor Craffu hwn.
3. Ei fod wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ar gyfer Arbedion yn y Gyllideb sy'n dod o dan y Pwyllgor Craffu hwn.
4. Ei fod wedi ystyried elfennau perthnasol cynigion y Ffioedd a Chostau sy'n dod o dan y Pwyllgor Craffu hwn, ac eithrio bod y Pwyllgor Craffu yn argymhell i'r Cabinet bod Ffioedd a Chostau arfaethedig y Meysydd Parcio yn Nhregaron a Llandysul yn cael eu dileu, fel na fyddai dim costau am Barcio Ceir yn parhau yn y trefi hynny o 01/04/23 ac y dylai'r gost bosibl o £40,000 sy'n gysylltiedig â hyn gael ei hariannu o'r Ddarpariaeth o £400k a neilltuwyd ar gyfer risgiau o ran Chwyddiant Cyflogau ac Ynni.
5. Pleidleisiodd y mwyafrif o Aelodau'r Pwyllgor o blaid cynnydd o 7.3% yn lefelau Treth y Cyngor. Mae'r Pwyllgor felly yn argymhell cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2023/2024, sef opsiwn 3b) yr argymhellion, fel a ganlyn:
 - 3b) Cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb 23/24 o £180.101m).
6. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn rhoi'r eitem ganlynol ar flaenraglen waith y Pwyllgor: Ystyried yr opsiwn o ganiatáu 2 awr o barcio am ddim cyn 11am.

Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

Cyngor Sir Ceredigion

ADRODDIAD I'R:	Cabinet
DYDDIAD:	14 Chwefror 2023
LLEOLIAD:	Hybrid
TEITL:	Adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ynghylch y gyllideb ddrafft a ystyriwyd gan y Cabinet ar 24 Ionawr 2023 a'r opsiynau ar gyfer gwneud arbedion yn y gwasanaethau yn 2023/2024. Hefyd ystyriodd yr Aelodau'r newidiadau arfaethedig i Ffioedd a Chostau'r Cyngor a fydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023.
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Darparu adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2023.

CEFNDIR:

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ystyried y cyllidebau ar gyfer y gwasanaethau sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, ynghyd ag ystyried yr argymhellion canlynol:

1. Ystyried sefyllfa gyffredinol y gyllideb fel y dangosir yn yr adroddiad ar y gyllideb yn Atodiad A.
2. Ystyried elfennau perthnasol y pwysau o ran costau ar y gyllideb, sef cyfanswm o £22.2m ar draws yr holl wasanaethau.
3. Ystyried elfennau perthnasol y cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y gyllideb, sef cyfanswm o £8.9m ar draws yr holl wasanaethau.
4. Ystyried elfennau perthnasol y cynigion ynghylch ffioedd a chostau.
5. Ystyried y 4 opsiwn a amlinellir yn Argymhelliad 3a) i 3d) o adroddiad Cabinet 24/01/23, sef:
 - 3a) Cynnydd o 6.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad cyllidebol o £179.627m ar gyfer 23/24, a fyddai'n darparu cyfraniad is tuag at Bwysau Costau Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion.
 - 3b) Cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad cyllidebol o £180.101m ar gyfer 23/24.
 - 3c) Cynnydd o 8.3% yn Nhreth y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad cyllidebol o £180.576m ar gyfer 23/24, a fyddai'n darparu cyfraniad uwch tuag at Bwysau Costau Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion.
 - 3d) Cynnig opsiwn arall yn ychwanegol at Argymhellion 3a) i 3c) i ddarparu cynnydd penodol at ddiben penodol, ar yr amod bod unrhyw opsiwn yn cael

ei ystyried yn ystod y cyfarfodydd a gynhelir i graffu ar y gyllideb a bod y Swyddog Adran 151 yn cael digon o amser ymlaen llaw i fodelu'r effaith yn llawn ac i roi ei farn ar ei gadernid.

6. Darparu unrhyw adborth priodol arall ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 23/24 i'r Cabinet.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan Arweinydd y Cyngor (y Cynghorydd Bryan Davies), yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Chaffael (y Cynghorydd Gareth Davies) a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Duncan Hall). Yna cyflwynodd yr Aelod Cabinet priodol yr eitemau yn y gyllideb sy'n berthnasol ar gyfer y meysydd gwasanaeth sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a atebwyd yn eu tro gan yr Aelodau Cabinet a/neu'r Uwch Swyddogion.

Argymhellion:

Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

1. Roedd wedi ystyried sefyllfa gyffredinol y gyllideb fel y dangosir yn yr adroddiad ar y gyllideb yn Atodiad A.
2. Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y pwysau o ran costau ar y gyllideb sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.
3. Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y gyllideb sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.
4. Roedd wedi ystyried elfennau perthnasol y cynigion ynghylch ffioedd a chostau sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hwn.
5. Pleidleisiodd rhan fwyaf o Aelodau'r Pwyllgor o blaid cynnydd o 7.3% yn Nhref y Cyngor. Felly mae'r Pwyllgor yn argymhell cynnydd o 7.3% yn Nhref y Cyngor ar gyfer 2023/2024, sef opsiwn 3b) yn yr argymhellion:
 - 3b) Cynnydd o 7.3% yn Nhref y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad cyllidebol o £180.101m ar gyfer 23/24.
6. Ni ddarparwyd unrhyw adborth arall gan y Pwyllgor ynghylch y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24.

Y Cynghorydd Rhodri Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol